Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu

**Lowri Williams**

**Brychdyn**



## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

01/11/2021

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2021.***

*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth a geir yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, ar unrhyw ffurf neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol neu gallwch ysgrifennu at y Tîm Polisi Gwybodaeth, Yr Archifau Gwladol, Kew, Llundain TW9 4DU, neu anfon e-bost at:*
*psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Mae'n rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| Math o ofal a ddarperir | Gwarchodwr plant |
| Lleoedd cofrestredig | 10 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg a Saesneg |
| Arolygiad diwethaf gan Arolygiaeth Gofal Cymru | 19/04/2017 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Ydy<br>Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a allai ddefnyddio'r gwasanaeth. |

## Crynodeb

Dyma arolygiad a gynhaliwyd yn ystod y pandemig COVID-19, felly rydym wedi canolbwyntio ar y meysydd blaenoriaeth ar gyfer y lleoliad hwn ac nid y fframwaith ansawdd llawn.

Mae'r plant yn hapus oherwydd eu bod yn cael eu parchu ac maent yn brysur gydag amrywiaeth o weithgareddau. Maent yn gallu gwneud rhai dewisiadau a phenderfyniadau a chaiff eu diddordebau eu gwerthfawrogi. Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel, ac maent yn dysgu sut i fod yn annibynnol ac i ryngweithio'n dda.

Mae'r gwarchodwr plant yn gofalu am y plant yn dda ac yn blaenoriaethu eu diogelwch. Mae'n rheoli ymddygiad y plant mewn ffordd garedig a theg. Mae'n brofiadol ac yn darparu gweithgareddau i helpu plant i ddatblygu, gan gynnwys cyflwyno'r plant i'r Gymraeg.

Mae'r amgylchedd yn ddiogel ac mae digon o weithgareddau ac ardaloedd chwarae a dysgu i ddatblygu sgiliau'r plant. Mae'r mannau dan do ac awyr agored yn addas i blant. Mae yna ddigon o deganau a gemau, sydd mewn cyflwr da, i helpu gyda datblygiad y plant.

Mae'r gwarchodwr plant yn parhau i ddarparu safon uchel o ofal plant i'r plant a'u teuluoedd. Mae'n brofiadol ac yn gymwys ac mae ei hymrwymiad i wneud gwelliannau o les i'r plant a'u teuluoedd. Mae'r gwarchodwr plant wedi meithrin partneriaethau llwyddiannus a chryf â rhieni, sy'n helpu'r plant i deimlo'n gartrefol a'u teuluoedd i deimlo fel eu bod yn cael eu cefnogi.

## Llesiant

Mae gan y plant lais ac maent yn gallu dylanwadu ar eu gofal. Maent yn gwneud dewisiadau addas a chaiff eu diddordebau eu gwerthfawrogi. Mae'r plant yn helpu eu hunain ac yn dewis gweithgareddau dan do ac yn yr awyr agored. Mae'r plant yn helpu eu hunain i adnoddau a gwnaeth plentyn bach chwarae'n hapus gyda'i hoff deganau, gan gynnwys blociau a chaer bren.

Mae'r plant yn ffurfio perthnasau cryf gyda'r gwarchodwr plant, sy'n darparu gofal cynnes iddynt. Mae'r plant yn hapus i fynd at y gwarchodwr plant am goflaid ac i gawl sgwrs. Dywedodd y rhieni wrthym fod eu plant wedi ymgartrefu'n dda iawn a'u bod yn mwynhau mynd i'r gwasanaeth yn fawr iawn.  Mae'r plant yn fodlon ac roedd yn wych gweld y plant yn cael eu cofleidio wrth iddynt fwynhau llyfr stori ar gôl y gwarchodwr plant.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda â'r gwarchodwr plant. Maent yn cydweithio'n dda wrth ofyn iddynt helpu i lanhau'r adnoddau crefft. Mae gan y plant ddiddordeb yn eu chwarae ac maent yn ymgysylltu ag ef. Mae'r plant yn mwynhau chwarae mewn ffordd greadigol, gan wneud lluniau o dusw wedi'i ludo. Mae gan y plant gyfleoedd i wneud pethau drostynt eu hunain. Maent yn dewis teganau a gweithgareddau ac yn rhoi'r teganau heibio ar ôl eu defnyddio.

## Gofal a Datblygiad

Mae'r gwarchodwr plant yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae'n gweithredu polisïau a gweithdrefnau yn effeithiol ac mae wedi adolygu'r gwasanaeth a'r gofal yn unol â chanllawiau sy'n ymwneud â'r pandemig COVID-19. Mae gan y gwarchodwr plant hyfforddiant diweddaredig o ran amddiffyn plant, cymorth cyntaf a hylendid bwyd. Mae'n darparu cyfleoedd i'r plant gymryd rhan mewn cyfnodau ymarfer corff rheolaidd yn yr awyr agored. Mae'r gwarchodwr plant yn rhoi meddyginiaeth i'r plant a chaiff cofnodion cynhwysfawr eu cadw. Gall y gwarchodwr plant siarad yn hyderus am ddiogelu a'r gweithdrefnau cywir i'w dilyn os yw'n poeni am blentyn. Mae'n darparu prydau a byrbrydau iach ac yn sicrhau bod diodydd ar gael drwy'r amser. Dywedodd y rhieni wrthym eu bod yn hapus gyda'r bwyd maethlon a ddarperir.

Mae'r gwarchodwr plant yn ymgysylltu'n dda yn ei rhyngweithiadau â'r plant ac yn eu cefnogi i reoli eu hymddygiad ac yn rhoi hwb i'w hunan-barch. Mae'n rhoi llawer o ganmoliaeth iddynt, er enghraifft, am dacluso'r teganau.  Mae'r gwarchodwr plant yn batrwm ymddygiad da ac mae'n siarad yn garedig ac yn dawel â'r plant.

Mae'r gwarchodwr plant yn gwybod sgiliau a hoff weithgareddau'r plant yn dda ac mae'n cynllunio cyfleoedd dysgu a gweithgareddau yn unol â hynny. Mae hyn yn sicrhau bod yr holl adnoddau ar gael yn rhwydd, megis cynhwysion coginio. Mae'r gwarchodwr plant yn gwybod cryfderau a hoffterau'r plant ac yn sicrhau ei bod yn diwallu anghenion y plant. Mae'r gwarchodwr plant yn siaradwr Cymraeg rhugl a dywedodd rhiant wrthym fod ei blentyn yn dysgu llawer, gan gynnwys geiriau ac ymadroddion Cymraeg. Dywedodd ei fod yn hapus gyda'r gweithgareddau a'r teithiau a ddarperir.

## Yr Amgylchedd

Mae'r amgylchedd yn ddiogel, yn lân, ac wedi'i gynnal a'i gadw'n dda, sy'n darparu man diogel a chyfforddus i'r plant ymlacio a dysgu ynddo. Mae'r gwarchodwr plant wedi nodi risgiau ac wedi cymryd camau i'w lleihau neu eu dileu. Er enghraifft, mae giât ddiogelwch yn atal y plant rhag cael mynediad i beryglon posib yn y gegin ac mae'r drysau allanol yn cael eu cloi. Mae'r plant yn gwybod sut i adael yr adeilad yn ddiogel oherwydd bod ymarferion tân yn cael eu cwblhau'n rheolaidd.

Mae'r gwarchodwr plant yn datblygu amgylchedd da i wella profiadau'r plant. Yn yr ystafell chwarae, caiff teganau eu storio ar uchder y plant er mwyn iddynt allu eu cyrraedd eu hunain. Mae'r adnoddau, teganau a llyfrau yn addas, gan gynnwys teganau i blant bach. Mae'r ardal awyr agored wedi'i gosod i blant ac roedd lluniau'n eu dangos yn mwynhau chwarae yn yr ardal hon. Mae'r gwarchodwr plant yn darparu dodrefn priodol i'r plant, gan gynnwys cadeiriau a byrddau bach. Mae'r adnoddau, sydd yn addas i oedran y plant, mewn cyflwr glân a da. Er enghraifft, blociau adeiladu, deunyddiau crefft, a theganau i blant bach. Mae'r gwarchodwr plant yn defnyddio cymysgedd o adnoddau naturiol a dyn, megis brigau a moch y coed, gan roi'r profiad i blant o ymdrin ag amrywiaeth o ddeunyddiau.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r gwarchodwr plant yn brofiadol ac mae ganddi wybodaeth am arferion gofal plant cyfredol ac mae hyn wedi'i nodi yn y datganiad o ddiben. Mae'r gwarchodwr plant yn diwallu anghenion y plant a'u teuluoedd. Dywedodd y rhieni wrthym eu bod yn hapus gyda'r gwasanaeth a ddarperir. Caiff y polisïau a'r gweithdrefnau eu diweddaru'n rheolaidd ac mae hyn yn sicrhau bod y gwarchodwr plant yn gyfarwydd â phrosesau cyfredol.

Mae'r gwarchodwr plant yn gwneud gwelliannau ac mae'r adolygiad blynyddol o ansawdd y gofal yn ystyried barn y rhieni a'r plant. Dywedodd rhiant wrthym fod y gwarchodwr plant yn gwrando arno a'i fod yn hapus i siarad â hi am unrhyw faterion gofal plant. Mae yna gynlluniau tymor hir ar gyfer gwelliannau megis cael mynediad i hyfforddiant Makaton, a fydd yn fuddiol i ddatblygiad ieithyddol y plant.

Mae'r gwarchodwr plant yn rheoli'r gwasanaeth yn dda, gan sicrhau bod hyfforddiant gorfodol a gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn gyfredol. Mae'r gwarchodwr plant wedi cyflawni cymhwyster Lefel 3 mewn gofal a datblygiad plant ac mae cyrsiau ychwanegol wedi cael eu cwblhau megis awtistiaeth. Mae hyn yn sicrhau bod gan y gwarchodwr plant wybodaeth gyfredol am sut i ddarparu amgylchedd dysgu addas i'r plant. Rydym yn argymell bod y gwarchodwr plant yn darllen y ddogfen ‘Bwyd a Maeth ar gyfer Lleoliadau Gofal Plant’ ar wefan Llywodraeth Cymru ac ymgyfarwyddo â'r Pecyn Cymorth Archwilio Rheoli Heintiau ar gyfer lleoliadau gofal plant yng Nghymru. Byddai hyn yn arfer da ac yn gwella gwybodaeth y gwarchodwr plant.

Mae'r gwarchodwr plant yn cyfathrebu'n effeithiol â rhieni, sy'n dangos pa mor bwysig y mae'n ystyried partneriaethau â rhieni. Mae'n cysylltu ag asiantaethau allanol am gyngor arbenigol os oes angen. Dywedodd y rhieni wrthym fod y gwarchodwr plant yn hyblyg ac yn gynhwysol yn ei dull.

## Argymhellion i fodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol

**A1** Darllen y ddogfen 'Bwyd a Maeth ar gyfer Lleoliadau Gofal Plant' ar wefan Llywodraeth Cymru ac ymgyfarwyddo â'r Pecyn Cymorth Archwilio Rheoli Heintiau ar gyfer lleoliadau gofal plant yng Nghymru. Byddai hyn yn arfer da ac yn gwella gwybodaeth y gwarchodwr plant.

| Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chyflawnwyd. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a bydd yn cael ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac fe'i cyflawnwyd. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan fo canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, yn cael eu nodi drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwelliant a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes/Meysydd i'w Gwella |
|---|

| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
|---|---|---|
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

**Dyddiad cyhoeddi** 04/01/2022